Cofnodion y Cyfarfod Cynllunio a'r Pwyllgor Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llandeilo ar ddydd Mercher, 8 Medi 2004

Yn bresennol: *Cynghorwyr*: Cyng Mrs R Bellamy (Maer), Cyng C. Jenkins (Dirprwy Faer), Cyng Mrs C Leadbeater, Cyng Ms F A Murphy.

Eraill: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), Mr P Faulkner (yn gwylio)

6202: Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

6203: Materion Cynllunio – Ceisiadau sydd wedi eu caniatáu:

E05487	Fflatiau yn 74 Stryd Rhosmaen	Wedi ei ganiatáu
E06033	Caniatâd Adeilad Rhestredig	Wedi ei ganiatáu
E05883	Ail ran Llys Pencrug (Ni soniwyd am unrhyw awgrymiadau a wnaed gan y Pwyllgor Cynllunio blaenorol yn ymwneud â llwybrau cerdded a darpariaeth parc chwarae.)	Wedi ei ganiatáu
E006284	Caniatâd i'r amlinelliad cynllunio ar gyfer plotiau ychwanegol	Wedi ei ganiatáu
E05476	Heol y Bont, 4 t â 3 stafell wely	Gwaith adnewyddu a gwelliannau wedi ei ganiatáu
E06562	Gwesty'r Cawdor	Cais Adeilad Rhestredig wedi ei ganiatáu
E06561		Cais Cynllunio llawn wedi ei ganiatáu

6204: Materion Cynllunio – Ceisiadau Newydd:

E07885	1 Red Cottage, mynediad newydd i'r cae	Dim gwrthwynebiad
E07834	Tafarn Newydd, ac adeiladau cyfagos. Dim gwrthwynebiadau, ond tynnwyd sylw at yr angen i gael man parcio bysiau a gofynnwyd ble mae'r ystafell ar gyfer y ganolfan ymwelwyr arfaethedig ar y cynlluniau?	
E06481	Tynnwyd y cais yn ôl	
E07525 ac E07526	Salutation Inn. Derbyniwyd gohebiaeth wrth John Morgan sy'n gwrthwynebu'r datblygiad.	

6205: Parcio Ceir:

Cyng C Jenkins i gysylltu â'r Cyngor Sir i roi gwybod bod parcio ceir yn bwnc llosg yng nghyswllt Cais Cynllunio E07525 ac E07526.

6206: <u>Ailenwi Strydoedd</u>:
Bydd 5 Lewis Terrace yn cael ei adnabod fel Llygad yr Haul, 5 Lewis Terrace o hyn ymlaen.

6207: <u>Gohebiaeth</u>:

1. Derbyniwyd lythyr wrth W E Schofield, The Walk, Llandeilo yngl n â'r goleuo yn y dref, sydd wedi cael ei gyfeirio at y Cyngor Sir.

2. Derbyniwyd ohebiaeth wrth BT am y ffaith bod y ffônau cyhoeddus yn cael eu tynnu o Heol Cilgant (cornel CK's) a Heol Newydd (ger yr Eglwys Gatholig).

6208: <u>Hawl Tramwyo, Llwybrau Cyhoeddus a Llwybrau Marchogaeth</u>:
Rhaglen o welliannau 2004/05. Swyddog Technegol i fynd ar ôl y cais diweddar.

6209: <u>Goleuadau Nadolig</u>:
Mae'r Swyddog Technegol yn aros am eglurhad wrth y Cyngor Sir am y cais cynllunio ar gyfer goleuadau Nadolig. Cyng Jenkins i gwrdd â'r Swyddog Technegol i drafod manylion y goleuadau Nadolig.

6210: <u>Arafu Traffig</u>:
Llythyr i'w ysgrifennu at Trevor Sage am y mesurau arafu traffig sydd eu hangen yn Llandeilo.

Daeth y cyfarfod i ben.